Adran dros Drafnidiaeth

# Gwasanaethau rheilffordd yn y Rhyddfraint ICWC nesaf

**10 Mai 2016 – 2 Awst 2016**



## Ymgynghoriad Cyhoeddus Rhyddfraint Rhwng Dinasoedd Arfordir y Gorllewin

# Cyflwyniad

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn dymuno cael barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar ddyfodol gwasanaethau a gorsafoedd rheilffordd ynghyd â gwasanaethau cefnogol eraill a ddarperir yn y Rhyddfraint ICWC newydd.

Mae hyn yn cynnwys yr holl wasanaethau rheilffordd a weithredir ar hyn o bryd gan Virgin Trains Arfordir y Gorllewin, sy'n cynnwys gwasanaethau cyflym dros bellter mawr rhwng dinasoedd a gorsafoedd. Rhoddir map yn dangos ble mae'r gwasanaethau yn rhedeg a'r gorsafoedd sy'n cael eu gwasanaethu yng nghanol y daflen hon.

Rydym yn awr yn cychwyn ar y broses o ddewis cwmni rheilffordd i weithredu a datblygu'r gwasanaethau a'r gorsafoedd hyn o fis Ebrill 2018.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni edrych eto ar y gwasanaethau rheilffordd a ddarperir gan Ryddfraint ICWC, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion a dyheadau'r bobl a'r ardaloedd a wasanaethir ganddynt.

***Ein gweledigaeth ar gyfer y rhyddfraint newydd yw galluogi twf economaidd, cefnogi buddsoddiad a gwneud teithiau yn well i deithwyr.***

Rydym yn croesawu eich barn ar bob agwedd o'r gwasanaeth rheilffordd fel ein bod yn gallu sicrhau bod y rhyddfraint newydd yn darparu'r rheilffordd orau posibl i deithwyr, cymunedau a busnesau.

## Ein hamcanion ar gyfer y rhyddfraint newydd

**Creu twf mewn teithwyr** a datblygu'r farchnad am deithiau rhwng dinasoedd a wasanaethir gan y rhyddfraint cyn cyflwyno HS2, cyflawni newid sylweddol trwy fyrhau amseroedd teithio, gwell capasiti, lefelau gwell o berfformiad, mynediad at ystod ehangach o brisiau i weddu i bob marchnad a gynigir trwy sianeli cyflawni blaengar, a gweithredu mewn modd mwy gwydn.

**Gweithio mewn partneriaeth** gyda gweithredwr rhyddfraint Gorllewin Canolbarth Lloegr, Network Rail, HS2 Ltd, yr Adran Drafnidiaeth a chyrff eraill perthnasol i gefnogi cyflawni'r gwaith HS2, yn arbennig ailadeiladu gorsaf Euston Llundain.

**Cyflawni meincnod newydd o ran bodlonrwydd cwsmeriaid** gan adeiladu ar y lefelau uchel sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Gwella'r amgylchedd ar drenau ac mewn gorsafoedd, yn benodol, sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl ar y teithwyr yn ystod gwaith adeiladu mawr yn cael ei gadw cyn lleied â phosibl a'u rheoli.

**Adeiladu ar fuddsoddiadau** a wnaed ym Mhrif Linell Arfordir y Gorllewin a'r rhyddfraint ICWC, i hybu cyflawni manteision tymor hir o'r buddsoddiad hwn a gwerth i'r rhai sy'n talu treth trwy gynnig gwerth am arian ar gyfer ICWC fel rheilffordd sy'n arwain y blaen a gosod y sylfaen ar gyfer gweithredu HS2.

**Cyflawni manteision i'r diwydiant cyfan** trwy flaengaredd a phartneriaeth, gan weithio i gyflawni gwasanaeth cost effeithiol gan wneud y defnydd mwyaf o'r capasiti sydd ar gael ar draws yr holl ardal a wasanaethir gan ICWC.

**Parhau i fuddsoddi** yn y gweithlu ac mewn manteision cymdeithasol economaidd ar gyfer y cymunedau a wasanaethir gan ICWC a'r economi ehangach yn y Deyrnas Unedig, gan sicrhau bod ICWC yn cyfrannu at amcanion ehangach y Llywodraeth.

## Meysydd allweddol yr ymgynghoriad

Er y byddem yn hoffi cael eich barn ar bob rhan o'r gwasanaeth rheilffordd a gynigir trwy'r rhyddfraint ICWC, mae pwyslais penodol yn yr ymgynghoriad ar y meysydd canlynol:

- Profiad y cwsmeriaid a'u bodlonrwydd
- Gwybodaeth, yn arbennig mewn adegau pan fydd amhariadau
- Sut gall y gwasanaethau trên fodloni anghenion yr ardaloedd a'r teithwyr a wasanaethir ganddynt
- Sut y gall y rhyddfraint gefnogi'r gymuned yn well
- Y rôl y mae gorsafoedd yn ei chyflawni i deithwyr a chymunedau
- Gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch i bawb
- Prisiau, tocynnau a thalu am eich taith

# Rhyddfraint ICWC ar hyn o bryd

Mae Rhyddfraint ICWC yn gweithredu gwasanaethau pellter mawr, cyflym, yn bennaf ar Brif Linell Arfordir y Gorllewin rhwng Llundain, Birmingham, Manceinion, Lerpwl, Gogledd Cymru, Glasgow a Chaeredin.

Mae'r rhyddfraint yn rhedeg ar hyd llwybrau Gogledd Orllewin Llundain, Cymru a'r Alban.

Mae'r rhyddfraint yn rhedeg tua 300 o wasanaethau trên y dydd. Y llynedd gwnaed dros 34 miliwn o deithiau gan deithwyr ar y rhyddfraint oedd yn cyfateb i 4.3 biliwn milltir.




Mae'r rhyddfraint yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i 49 gorsaf ac yn rheoli 17 o'r rhain yn uniongyrchol.

Ar hyn o bryd mae'r rhyddfraint yn gweithredu fflyd o 76 o drenau cyflym sy'n gwyro. Mae'r fflyd yn cynnwys pendolinos trydan a super-voyagers diesel.

# Sut i ymateb

Y ddogfen ymgynghori lawn a'r holiadur ar-lein ar gael yn:
**www.gov.uk/government/collections/rail-franchising#intercity-west-coast-franchise**

Mae manylion am ddigwyddiadau cyhoeddus y gallwch ddod iddynt a holi cwestiynau fel sail i'ch ymateb ar gael ar-lein yn **www.gov.uk/government/collections/rail-franchising#intercity-west-coast-franchise**.

Os oes arnoch angen fformat gwahanol o'r ddogfen neu'r holiadur, cysylltwch â ni yn:

**ICWC Consultation**
Department for Transport
4/18 Great Minster House
33 Horseferry Road
London
SW1P 4DR

**0300 330 3000** (switsfwrdd)


Bydd yr ymgynghoriad yn parhau o 10 Mai hyd 23:45 ar 2 Awst. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau.

Yr Adran Drafnidiaeth. © Hawlfraint y Goron 2016.
Wedi ei argraffu ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu o leiaf.
https://www.gov.uk/government/collections/rail-franchising#intercity-west-coast-franchise

# Ardal rhyddfraint Rhwng Dinasoedd Arfordir y Gorllewin

## Unrhyw gwestiynau?
## Dewch draw i'n gweld yn un o'n digwyddiadau cyhoeddus:

| Lleoliad (y cyfan yn y gorsafoedd rheilffordd) | Dyddiad | | Amser |
|---|---|---|---|
| Milton Keynes | Dydd Mercher | 25 Mai | 16:30 hyd 20:00 |
| Euston | Dydd Iau | 26 Mai | 15:30 hyd 20:00 |
| Piccadilly Manceinion | Dydd Gwener | 3 Mehefin | 15:30 hyd 20:00 |
| Lime Street Lerpwl | Dydd Llun | 6 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| Bangor | Dydd Mercher | 8 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| Y Rhyl | Dydd Iau | 9 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| Caerliwelydd | Dydd Mercher | 15 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| Waverley Caeredin | Dydd Iau | 16 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| Glasgow Canolog | Dydd Gwener | 17 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| Rugby | Dydd Iau | 23 Mehefin | 15:00 hyd 17:30 |
| New Street Birmingham | Dydd Gwener | 24 Mehefin | 15:30 hyd 20:00 |




© Hawlfraint y Goron 2016